HG 35-5-165

# PARCHUS GOFFADWRIAETH,

NEU,

# Farwnad,

AM

## *Cadpen DAVID RICHARDS,*

Pregethwr yr Efengyl,

O SOLFACH,

Yr hwn a foddodd ar yr unfed dydd ar bymtheg o Ragfyr diweddaf, 1819;

YNGHYD A

## Chadpen LLEWELYN DAVIES,

O DREFDRAETH,

Yr hwn a foddodd ar y trydydd dydd o Dachwedd, yn yr un flwyddyn.

---

GAN JOSIAH JONES.

---

*Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Ysbryd, fel y gorphwysont oddiwrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt.*

DAT. xiv. 13.

CAERFYRDDIN:
Argraffwyd gan Evan Jones, yn Heol-y-Prior.

1820.

XX03 314022

LW 2993

## PARCHUS GOFFADWRIAETH, &c.

—o—

1 MAE rhagluniaeth ddoeth y nefoedd,
I'w wel'd yn hynod yn ein plith,
Gweithio mae ryw bethau rhyfedd,
Nad ânt o'm cof tra ynof chwyth;
Clywed ydwyf am ei throion,
Ryw newyddion bob ryw ddydd,
Nes yn peri im' fod weithiau,
'N llawenhau ac weithiau'n brudd.

2 Trwm yw'r newydd glywaf heddy',
Gan deulu Iesu fach a mawr,
I fod un o'i hoff athrawon,
Gwedi gadael teulu'r llawr;
Cadpen RICHARDS a'u gadawodd,
Nofiodd adre' i Seion fryn,
I blith myrdd rhagorach cwm'ni,
Nâg oedd ganddo'r ochr hyn.

3 Rhoddi'r cleddyf wnaeth ef heibio,
Cario'r palmwydd nawr y mae,
Canu'r anthem byth heb flino,
Gydâ'r anllygredig rai;
Parch oedd iddo yn yr eglwys,
Pan oedd yma ar y llawr,
Parch fydd iddo etto i bara',
I oesoedd trag'wyddoldeb mawr.

4 O'r un ysbryd oedd a Chaleb,
O'r un zêl dros eglwys Dduw,
A'r duwiolion aeth tu ag adre',
At y dyrfa hardd i fyw;
Hynod ydoedd am ddyrchafu,
Enw'r Iesu ddydd a nos,
'Rhwn fy'n dyodde'r loesau chwerwon,
Dan yr hoelion ar y gro's.

5 Yn mhob ardal fe gyhoeddai,
Faith drysorau'r 'fengyl lawn,
D'wedyd wnai am haeddiant Iesu,
A'i anfeidrol ddwyfol Iawn;
I fod e'n ddigon i bechadur,
Fentro 'i enaid arno'n llwyr,
A byw'n dawel ar ei rinwedd,
O'r boreu-ddydd hyd yr hwyr.

6 Arfer RICHARDS ydoedd teithio,
Ar y môr fel ar y tir,
'Nol ei alwad fe fu'n morio,
Lawer o flynyddau hir;
Ond o'r diwedd daeth ei oriau,
A'i wythnosau fynu'n llawn,
Angeu ddaeth i'w ei gyfarfod,
Ar y tònau un prydnawn.

7 Hwylio ydoedd o Filffwrd,
Gael wynebu'r dyfroedd maith,
Ond cyn iddo fyn'd yn epell,
Cwrddyd wnaeth â phen ei daith;
Gwynt a chwythodd yn ei erbyn,
Methodd hwylio 'mlaen yn hir,
Gorfod troi yn ol drachefn,
I gael ymgais am y tir.

8 Storom chwythodd yn fwy chwerw,
Y môr a'i dònau'n cadw stwr,
Curo'r creigydd wnaeth y llestr,
Nes b'ai'n ddarnau ar y dw'r;
Nid oedd dim ar y greadigaeth,
Ro'i iddynt gysur o unrhyw,
Ond yn unig cael adnabod,
Fod o'i plaid yr Arglwydd Dduw.

9 Cadpen RICHARDS a ofynai,
" 'Mechgyn bach pa le mae'ch ffydd,
A oes genych fodd i sefyll,
Yn ngwyneb Iesu'r olaf ddydd;

Mae ein hamser ar dd'od fynu,
Angeu ar ein torri lawr,
Nid oes dim i'w wneuthur weithian,
Ond boddloni'r drefn fawr.

10 Mae duwioldeb o fawr elw,
Im' wrth farw yn y dòn,
Nid oes dim ar y greadigaeth,
A'i cyd-bwysa'r funud hon;
Modd i'm cario yw duwioldeb,
Adre'n dawel at fy Nuw,
Modd i ganu gydâ'r Iesu,
A'i glodforu hefyd yw."

11 Naw o ddynion oedd y nifer,
Aeth i'r dyfnder yn y fan,
Heb un sail i ymobeithio,
Dd'od oddi yno'n iach i'r lan;
Ond rhagluniaeth ddoeth y nefoedd,
Drefnodd gadw un yn fyw,
Y tònau mawr a'i taflodd fynu,
Rhyfedd yw daioni Duw.

12 Ar yr unfed dydd ar bymtheg,
O fis Rhagfyr y bu hyn,
Oedran Crist ein gwir Iachawdwr,
'Rhwn fu farw ar y bryn,
Ydoedd deunaw cant o flwyddau,
Tair ar bymtheg gydâg un,
Dyna'r hanes i chwi'n gywir,
Fel y cefais i fy hun.

13 DAVID RICHARDS ti'n gadewaist,
Yn y rhyfel ar dy ol,
Nerth a gaffom ninnau'th ddilyn,
Tu a'r bywyd heb droi'n ol;
Cledde'r ysbryd fo'n ein dwylo,
Nerth i'w *handlo* oddiwrth Dduw,
Fel na byddo neb gelynion,
Feiddi'n drygu tra fo'm byw.

14 Ffarwel ro'ws i'w anwyl briod,
Ei gadael wnaeth yn hyn o fyd,
Gadael plant ei ymysgaroedd,
A'i berth'nasau oll i gyd ;
Ffrynd i'r gweddwon ydyw'r Iesu,
Tad yr holl amddifaid yw,
Dyro'u mheithrin oll i fynu,
A'u cynyddu ar gynydd Duw.

15 Rho i'w briod gael dy 'nabod,
Iddi'n ffyddlon dirion Dad,
Dyro heddwch yn ei mhynwes,
Trwy rinweddau maith y gwa'd ;
Nerth i wrthod pob eilunod,
Congc'ro pechod o bob rhyw,
Fel b'o iddi gael ei gwmp'ni,
Mewn gwell ardal gydâ Duw.

16 * Daeth ei gorph i'r lan o'r tònau,
Rho'wd i orwedd yn y pridd,
Erys yno'n ddigon tawel,
Hyd yr adgyfodiad ddydd;
Caiff ei godi'n hardd pryd hynny,
Wrth yr alwad gan ei Dduw,
Corph ac enaid gaiff ymuno,
Gael d'od adre' atto i fyw.

17 Byth ni chlywir mwy mo hono,
'N bloeddio geiriau'r 'fengyl lân,
Mewn un ardal nâg un porthladd,
Fel y clywyd ef o'r bla'n;
Draw yn Ngwerddon ac yn Lloegr,
'Nol ei arfer byddai ef,
Yn perswadio pechaduriaid,
Droi eu whyneb tu a'r nef.

---

* Cafwyd gafael yn ei gorph yn mhen llawer o wythnosau gwedi iddo golli ei fywyd.

18 Llawer heddy' sy'n galaru,
Ar ei ol wrth gofio'r awr,
Ca'dd ei enaid fyned adre',
'Raeth ei gorph i'r dyfnder lawr;
Hiraeth fyddo yn ein calon,
Yn fwy cyson ddydd a nos,
Am gael 'nabod rhan yn Iesu,
'Rhwn ddyoddefodd angeu lo's.

19 Arglwydd dere yn dy awdurdod,
Congc'ra bechod oll yn llwyr,
A llewyrched dy oleuni,
Yn fwy tambed yn yr hwyr;
Traed y cloffion gaffo'u gwella,
Rhwymau'r caethion fyn'd yn rhydd.
Rhai sy'n rhodio mewn tywyllwch,
Ddelo i weled goleu'r dydd.

20 Dy efengyl gaffo'i llwyddo,
Ar y môr fel ar y tir,
Cyfod etto ryw rai fynu
I gyhoeddi'th eiriau pur;
Ysbryd gweddi ddelo'n union,
At y dynion sydd yn byw,
Yn ddi-fater am eu cyflwr,
Yn myn'd tu a'r farn heb 'nabod Duw.

21 Dyro iddynt gyfranogi,
O fendithion Canaan wlad,
'Nabod rhan yn haeddiant Iesu,
'Nabod craig o dan eu tra'd.
Pob rhyw ieithoedd ddelo i'th 'nabod,
A'th addoli o un fryd,
Fel bo'th enw yn benmoliant,
Trwy deyrnasoedd maith y byd.

22 'Rwy'n dych'mygu gwela'i heddy',
Cadpen RICHARDS yn y ne',
Cadpen DAVIES yn ei ymyl,
Cadpen WILLIAMS gydâg e';

Yn cyd-seinio'r nefol anthem,
Am yr uwchaf iddo ef,
'Rhwn a'u cofiodd cyn bod amser,
Ac a'u dygodd adre' i'r nef.

23 Goleuadau oeddent yma,
Nes i'w gyrfa dd'od i ben,
Oddi ar y tònau'r aethant adre',
I drigfanau'r nefoedd wen;
'Rhwn sy â'i ffyrdd ef yn y moroedd,
A'i lwybrau yn y dyfroedd mawr,
Dangos wnaeth ei ddwyfol allu,
Trwy beru angeu tori lawr.

24 † Dau o honynt hwyliodd allan,
O dref Milffwrd 'run prydnawn,
'Nol bod yno yn pregethu,
Gydâ'u gilyy'n ddiwyd iawn:
Siglo dwylo wnaent yn llawen,
Wrth wynebu'r dyfnder mawr,
Ond y storom gref a'u chwythodd,
Oll i eigion môr i lawr.

25 Ar y trydydd dydd o Dachwedd,
Ar *goast* Gwerddon yn y nos,
Cadpen Davies ga'dd ei golli,
Trwy i'r gwyntoedd chwythu'n gro's;
Methodd landio i diroedd Gwerddon,
Croesi'r afon wnaeth i dref,
Cannoedd heddy' sy'n galaru,
Achos colli gwm'ni ef.

26 Gwr defnyddiol, doeth, a duwiol,
Gwr profiadol ydoedd ef,
'Roedd sancteiddrwydd arno i weled,
Yn mhob porthladd, gwlad, a thref;

---

† Cadpen William Williams, o Gaerlleon, pregethwr enwog iawn, a Chadpen David Richards, pa rai a gawsant eu chwythu trwy yr un storom i dragywyddoldeb.

Colled mawr i'r *Bible Societ'*,
A'r Cenadeg yn mhob lle,
Colled misol gwrddau gweddi,
Ydoedd colli gwm'ni e',

27 Hoff oedd ganddo gyfrinachu,
A phob rhai f'ai'n caru Duw,
O ba enw hynna' byddent,
Gydâ'r cyfryw 'r oedd am fyw;
Ond mae heddy' yn mhlith cwmpeini,
Can mil gwell nâg ar y llawr,
Heb un llygredd byth i'w flino,
A'i ddwyn i anghofio'i Arglwydd mawr.

28 Nerth a gaffo'i holl berth'nasau,
Deithio'i lwybrau tra b'ont byw,
Eu dymuniad fyddo'n wastad,
Fyw er clod i enw Duw;
‡ Meistress DAVIES paid ag wylo, ‡ Ei Wraig.
Dyro heibio'th alar nawr,
Cais feddiannu gwell trysorau,
Nâg sydd ar y ddaear lawr.

29 Chwithau, forwyr, cawsoch golled,
Golli'r fath Gadpeniaid hardd,
Rhai fu'n byw wrth fodd yr Iesu,
'Rhwn fu'n chwysu yn yr ardd;
O hyn allan cym'rwch rybudd,
Cyn anturio i hwylio i ma's,
Fyn'd yn ëon at yr orsedd,
Geisio cadwedigol ras.

30 Mae'r un Duw a'u daliodd hwythau,
Yn ei winllan ddyddiau maith,
'N ddigon abal i'n dal ninnau,
A'n dwyn adre' i ben ein taith;
Gael cyd-wledda ar fynydd Seion,
Gydâ'r Oen tu fewn i'r llen,
A'i glodfori byth heb dewi,
Rho'f yn awr y gair Amen.